| | |
|---|---|
| **Dyddiad**/Date | 6 Hydref 2023 |
| **Gofynnwch am/**Ask for | N Burton |
| **Rhif Ffôn**/Telephone | 07759930272 |
| **Ffacs**/Fax | |
| **e-bost**/e-mail | sustainablecommunitiesforlearning@valeofglamorgan.gov.uk |
| **Eich Cyf/**Your Ref | |
| **Fy Nghyf/**My Ref | SCfL/YIM |

**Cyngor Bro Morgannwg**
Dysgu a Sgiliau
Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, y Barri, CF63 4RU
Ffôn: (01446) 700111 www.bromorgannwg.gov.uk

**The Vale of Glamorgan Council**
Learning and Skills
Civic Offices, Holton Road, Barry CF63 4RU
Phone: (01446) 700111
www.valeofglamorgan.gov.uk

At sylw: Rhieni, Gofalwyr a Gwarcheidwaid plant sy'n mynychu Ysgol Iolo Morganwg;
Pennaeth, Staff a Chorff Llywodraethu Ysgol Iolo Morgannwg;
Ymgynghoreion Penodedig.

Annwyl Ymgynghorai,

**Cynnig i ddarparu lleoedd ysgol ychwanegol i ateb y galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol drwy ehangu Ysgol Iolo Morganwg** o 210 o leoedd i 420 o leoedd o fis Medi 2025.

Gwnaeth y Cyngor ymgynghori ag ymgynghoreion penodedig yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ar y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Iolo Morganwg o 210 lle i 420 lle o fis Medi 2025.

Yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018, cynhaliwyd ymgynghoriad ag ymgynghoreion penodedig rhwng 27 Chwefror 2023 ac 11 Ebrill 2023. Nod yr ymgynghoriad oedd hysbysu ymgynghoreion penodedig am y cynnig i gynyddu nifer y lleoedd ysgol cyfrwng Cymraeg yn y Bont-faen drwy ehangu Ysgol Iolo Morganwg o 210 lle i 420 lle. Cafodd y Cyngor 91 o ymatebion. Roedd 86 o blaid y cynnig a 5 yn erbyn.

Ar 25 Mai 2023, ar ôl ystyried yr adroddiad ymgynghori, penderfynodd y Cabinet fwrw ymlaen â'r cynnig drwy gyhoeddi hysbysiad statudol. Cyhoeddwyd yr hysbysiad statudol ar wefan y Cyngor ar 26 Mehefin 2023 a'i roi i ymgynghoreion penodedig. Gosodwyd yr hysbysiad ym mhrif fynedfeydd Ysgol Iolo Morganwg a safle arfaethedig yr adeilad ysgol newydd. Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn sicrhau bod cyfle i unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu cynnig trefniadaeth ysgolion wneud hynny. Er mwyn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol, mae'n rhaid i wrthwynebiadau gael eu gwneud yn ysgrifenedig neu drwy e-bost, a chael eu hanfon i'r cynigiwr cyn pen cyfnod o 28 diwrnod gan ddechrau o'r diwrnod pan gyhoeddwyd yr hysbysiad ("y cyfnod gwrthwynebu"). Gan fod yr hysbysiad statudol wedi'i gyhoeddi ar 26 Mehefin 2023, roedd rhaid derbyn gwrthwynebiadau statudol erbyn 24 Gorffennaf 2023. Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau statudol yn ystod y cyfnod rhybudd statudol.

**Ar 7 Medi 2023, cymeradwyodd Cabinet Cyngor Bro Morgannwg y cynnig i ehangu Ysgol Iolo Morganwg** o ysgol â 210 o leoedd i ysgol â 420 o leoedd o fis Medi 2025. O ganlyniad, bydd adeilad newydd ar gyfer Ysgol Iolo Morganwg yn cael ei adeiladu ar ddatblygiad preswyl Darren Farm gyda lle i 420 o ddisgyblion, a bydd yr ysgol yn symud i mewn o 1 Medi 2025.

Wrth benderfynu ar y cynnig, roedd y Cabinet yn fodlon y bydd y cynnig yn:

- Galluogi'r ysgol i wella ymhellach wrth ddarparu ar gyfer poblogaeth fwy o ddisgyblion.
- Sicrhau bod y Cyngor yn gallu bodloni galw'r dyfodol am addysg cyfrwng Cymraeg yn seiliedig ar y tueddiadau cyfredol.

- Cynnig amgylcheddau dysgu arloesol a chreadigol sy’n gallu addasu i newid, wrth herio a chefnogi plant i gyflawni eu llawn botensial.
- Cynyddu gallu’r gymuned i ddefnyddio a rhyngweithio â’r ysgol drwy ddefnyddio cyfleusterau addysgol yr ysgol, gan fodloni anghenion yr ysgol ar yr un pryd.
- Bydd yr adeilad newydd yn bodloni safonau ‘Ardderchog’ BREEAM (Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu) ac yn cael ei adeiladu i safon ‘A’ TPY (Tystysgrif Perfformiad Ynni).
- Ategu amcanion Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Bro Morgannwg 2022-2031.
- Cyfrannu’n effeithiol at darged Llywodraeth Cymru o gyrraedd 1m o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae’r rhesymau dros y penderfyniad mewn cysylltiad â’r ffactorau wedi’u hamlinellu yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion fel a ganlyn:

**Ansawdd a Safonau Addysg**

Yn eu hymateb i’r ymarfer ymgynghori, dywedodd Estyn: ‘Barn Estyn yw bod y cynnig yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal.’ Trwy dderbyn a gweithredu'r cynnig hwn, bydd disgyblion yn cael eu haddysgu mewn adeilad modern o ansawdd da a fydd yn gallu cefnogi’r gwaith o ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys i ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2.

Mae gan y Cyngor uchelgais glir i ddeilliannau addysgol ym Mro Morgannwg fod gyda’r gorau yng Nghymru a chystal â’r awdurdodau mwyaf llwyddiannus yn Lloegr sydd â phroffiliau economaidd-gymdeithasol tebyg. Bydd y cynnig yn helpu i wireddu’r uchelgais hon.

Bydd yr adeilad a’r safle newydd yn cynnig rhagor o gyfleoedd i ddatblygu’r cwricwlwm a hybu lles disgyblion. Bydd gan ddisgyblion ragor o gyfleoedd i fanteisio ar gyfleusterau digidol a mannau dysgu awyr agored. Bydd darpariaeth well i fyfyrwyr sydd ag anghenion addysgol arbennig ar gael yn yr ysgol.

Bydd y cynnig yn sicrhau buddsoddiad mawr ei angen yn Ysgol Iolo Morgannwg a bydd yn helpu i gyflawni’r newid trawsnewidiol sy’n angenrheidiol i bob myfyriwr gyflawni ei lawn botensial.

**Yr angen am leoedd a’r effaith ar hygyrchedd ysgolion**

Bydd y cynnig yn sicrhau bod cydbwysedd cynaliadwy rhwng y cyflenwad a’r galw am leoedd ysgol gynradd yn y Fro wledig ar draws y Bont-faen a’r cyffiniau yn yr hirdymor. Bydd y cynnig yn cynyddu lleoedd ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn y Fro wledig ac ardal y Bont-faen a fyddai'n cefnogi twf mewn addysg gynradd cyfrwng Cymraeg, gan gefnogi CSCA y Cyngor a strategaeth 'Cymraeg 2050' Llywodraeth Cymru.

Dywedodd Estyn yn eu hymateb i'r ymgynghoriad, 'Mae'r awdurdod lleol wedi nodi rhesymeg glir a manwl dros ei gynnig. Mae angen ateb y galw yn y dyfodol yn sgil y datblygiadau tai newydd yn y Bont-faen a dalgylch ehangach yr ysgol, yn ogystal â'r galw cynyddol am addysg Gymraeg. Byddai'r cynnig hefyd yn darparu cyfleusterau o'r radd flaenaf i staff a dysgwyr Ysgol Iolo Morgannwg, gan fod yr ysgol bresennol ar safle cyfyng iawn ar lethr gyda gofod hamdden awyr agored cyfyngedig a dim gobaith o ehangu’r safle yn sylweddol i fodloni’r safonau Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.’

Dan y cynigion, nid oes cynlluniau i newid polisi’r Cyngor ynglŷn â darparu trafnidiaeth i blant rhwng y cartref a’r ysgol. Ni fydd cymhwysedd am gludiant ysgol am ddim yn newid o ganlyniad i’r cynnig hwn. Ni fydd y llwybrau cerdded diogel i ysgolion a ddefnyddir ar gyfer asesu cludiant ysgol am ddim yn newid o ganlyniad i’r cynnig hwn.

Bydd gwell mynediad i ddisgyblion anabl a defnyddwyr eraill yn yr adeilad newydd arfaethedig.

**Adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill**

Darperir arian trwy'r fformiwla ariannu ysgolion sy'n dyrannu'r rhan fwyaf o arian ar gyfer ysgolion ar sail nifer y disgyblion.

Bydd y cynnig hwn yn golygu y gwneir buddsoddiad cyfalaf sylweddol i sefydlu ysgolion newydd a datblygu cyfleusterau o'r radd flaenaf. Amcan gost y cynllun yw £18.054m. Rhagwelir y byddai Llywodraeth Cymru yn ariannu'r prosiect yn rhannol drwy'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Y Cyngor fyddai'n cyfrannu gweddill yr arian cyfalaf.

**Ffactorau cyffredinol eraill**

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi y byddai effaith gadarnhaol ar bobl â nodweddion gwarchodedig o ran oedran, anabledd ac ailbennu/hunaniaeth rhywedd. Byddai'r cynnig yn cefnogi'r Gymraeg a'r ysgol i sicrhau bod ganddi gyfleusterau gwell i hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthnasau da rhwng y rhai â nodweddion gwarchodedig gwahanol.

Ni welwyd unrhyw effaith negyddol ar y nodweddion gwarchodedig a nodwyd. Nid yw'r safle presennol yn cydymffurfio'n llawn â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 oherwydd cyfyngiadau'r safle. Byddai gweithredu'r cynnig yn llwyddiannus yn galluogi cydymffurfiaeth drwy ddarparu adeilad cwbl hygyrch â chyfleusterau sy'n niwtral o ran y rhywiau.

Mae'r asesiad effaith yn nodi y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith niwtral ar y gymuned leol mewn 2 o'r 8 mesur a aseswyd. Byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol mewn 6 o'r 8 mesur a aseswyd. Yn gyffredinol, byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol.

**Yn gywir,**



Paula Ham, Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau